



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

**POLISI AR YNNAU, GYNNAU FFUG
AC ARFAU YMOSODOL AR EIDDO'R BRIFYSGOL**

| Adol. | Dyddiad | Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i Gwblhau |
|--------------|----------------|---|---|
| 1. | 6 Mehefin | Cyhoeddiad Cyntaf | 15 Mehefin 2016 |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|--------------------------|---------------------------------------|---------------------------|----------------|
| Pennaeth Cydymffurfio | Ysgrifennydd y Brifysgol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 6 Mehefin 2016 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen blwyddyn.

1. Datganiad Polisi

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod fod ganddi ddyletswydd gofal i sicrhau campws diogel a chroesawus i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr ac fel y cyfryw mae wedi gosod rheoliadau llym ar berchnogaeth, meddiant, a'r defnydd posib o ynnau, gynnau ffug a / neu arfau ymosodol ar eiddo'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi cytuno¹ bod meddu ar, cludo neu ddefnyddio:

- Unrhyw wn, gwn ffug, a / neu
- Unrhyw arf ymosodol²

wedi'i wahardd o holl eiddo Prifysgol Bangor³, ac eithrio unrhyw wn, gwn ffug, a / neu arf ymosodol a ddefnyddir at ddibenion dilys⁴ ac sydd wedi'i awdurdodi ymlaen llaw gan Ysgrifennydd y Brifysgol.

2. Pwrpas

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod staff a myfyrwyr y Brifysgol yn cydymffurfio â'r canlynol:

[a] Y gwaharddiad ar ynnau a gynnau ffug ar ei heiddo.

ac, oni bai bod y meddiant yn ddilys,

[b] Y gwaharddiad ar arfau ymosodol ar ei heiddo. Mae arfau troseddol, at ddiben y Polisi hwn, fel y diffinnir yn Neddf Atal Troseddu 1953, Adran 1, pan fo bwriad i achosi anaf neu achosi braw i unigolyn arall.

Os troseddir yn erbyn y gwaharddiad, (sy'n golygu unrhyw achos o feddu, cludo neu ddefnyddio tu hwnt i'r hyn a awdurdodir yn unol ag Adran 2 isod) bydd y brifysgol yn ymdrin â hynny'n ddifrifol, a gellir ystyried y mater dan y trefnau disgyblu perthnasol.

Ymdrinnir ag unrhyw ddigwyddiad brys yn ymwneud â gwn, gwn ffug a / neu arf droseddol ar eiddo'r Brifysgol yn unol â threfnau rheoli argyfwng y Brifysgol sy'n cynnwys adrodd am y digwyddiad wrth Heddlu Gogledd Cymru, a gall fod canlyniadau difrifol i'r unigolion perthnasol.

3. Trefn weithredu

Ysgrifennydd y Brifysgol yw'r Uwch Awdurdod dros y Polisi hwn ac mae ganddo/ganddi gyfrifoldeb cynhwysfawr dros reoli ei ofynion, ac yn benodol, dros awdurdodi storio, meddu

1 Cyfarfod Grŵp Tasg Cydymffurfio 5 Hydref, 2015

2 Diffinnir yn Neddf Atal Troseddu 1953, Adran 1, fel unrhyw declyn a wnaed neu a addaswyd i'w ddefnyddio at ddiben achosi anaf i'r person; neu a fwriedir gan y person sydd ag ef at ddefnydd o'r fath ganddynt hwy neu gan ryw berson arall.

3 Yn cynnwys pob eiddo a leolir ym Mangor, Porthaethwy, Wrecsam ac unrhyw leoliad yn y Deyrnas Unedig sy'n eiddo i Brifysgol Bangor neu a brydlesir ganddi ac a ddefnyddir at fusnes Prifysgol.

4 Diffinnir fel diben sy'n gymesur ag addysgu, dysgu, ymchwil neu defnydd busnes dilys y Brifysgol a / neu gylch gorchwyl cydnabyddedig cymdeithas Undeb Myfyrwyr Bangor.

ar, cludo neu ddefnyddio gynnu, gynnu ffug a / neu arfau troseddol (fel y diffinnir gan y Polisi hwn) ar eiddo'r Brifysgol at ddibenion dilys.

Gall Ysgrifennydd y Brifysgol benodi aelodau llawn-amser eraill o staff y Brifysgol i weithredu ar ei ran i reoli gofynion gweithredol y Polisi hwn. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol wedi penodi'r Pennaeth Cydymffurfio, yn y Swyddfa Cynllunio a Llywodraeth i weithredu yn hyn o beth.

Ni awdurdodir unrhyw fyfyrwr i storio, meddu ar, cludo neu ddefnyddio gwn, gwn ffug a / neu arf droseddol (fel y diffinnir gan y Polisi hwn) ar eiddo'r Brifysgol oni bai fod defnydd o'r fath wedi cael ei awdurdodi yn dilyn y drefn weithredu a amlinellir yn 2[b] isod a bod hynny'n gysylltiedig â gweithgareddau Cymdeithas Undeb Myfyrwyr Bangor.

Dylid ceisio awdurdodaeth yn ogystal i storio, meddu ar, cludo neu ddefnyddio gwn, gwn ffug a / neu arf droseddol (fel y diffinnir gan y Polisi hwn) mewn unrhyw gynhyrchiad theatrig a / neu ddigwyddiad a gynhelir gan y Brifysgol ar eiddo'r Brifysgol.

[a] Y drefn weithredu i staff y Brifysgol

- [i] Rhaid i geisiadau i storio, meddu ar, cludo neu ddefnyddio gynnu, gynnu ffug a / neu arfau troseddol ar eiddo'r Brifysgol gan aelodau staff Prifysgol Bangor gael eu gwneud, yn y lle cyntaf, i Ddeon y Coleg / Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Canolog priodol.
- [ii] Unwaith yr awdurdodir ar lefel Coleg / Adran rhaid i'r cais gael ei anfon ymlaen at y Pennaeth Cydymffurfio, Swyddfa Cynllunio a Llywodraethu, gan ddefnyddio'r ffurflen gais yn Atodiad 1.
- [iii] Bydd y Pennaeth Cydymffurfio yn:-
- Cydnabod derbyn y ffurflen gais;
 - Sicrhau bod asesiad risg wedi'i gynnal ar y gweithgaredd arfaethedig a bod copi o'r asesiad yn cael ei gynnwys gyda'r cais.
 - Rhannu'r ddogfen asesu risg gyda Phennaeth Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.
 - Ymgymryd ag asesiad cychwynnol o'r ffurflen gais, ar y cyd â Phennaeth Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, yn cynnwys gwirio pob dogfennaeth a gyflwynir ac unrhyw bolisiau / trefnau a bennir yn berthnasol i'r cais.
- [iv] Bydd y Pennaeth Cydymffurfio yn trafod y manylion a dderbyniwyd gyda chydweithwyr perthnasol yn y Brifysgol (e.e. Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, Ystadau a Chyfleusterau, Chwaraeon a Hamdden, Undeb y Myfyrwyr, Cysylltiadau Corfforaethol etc.), ac, os bydd angen, gall ymgynghori gydag asiantaethau allanol i geisio cyngor ac arweiniad pellach i oleuo penderfyniad y Brifysgol.
- [v] Ar ôl derbyn y Ffurflen Gais ac yn dilyn asesiad cychwynnol bydd y Pennaeth Cydymffurfio yn ymgynghori ag Ysgrifennydd y Brifysgol ac yna, yn ysgrifenedig, naill

ai'n caniatáu neu'n gwrthod i aelod staff storio, meddu ar, cludo neu ddefnyddio gynnau, gynnau ffug a / neu arfau troseddol ar eiddo'r Brifysgol. Gall y caniatâd a roddir fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn rhesymol yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol.

- [vi] Pan ganiateir awdurdodaeth bydd hynny yn arferol dim ond mewn perthynas â lleoliad / ffrâm amser cyfyngedig. Fodd bynnag, awdurdodir Ysgrifennydd y Brifysgol i wneud eithriadau yn ddibynnol ar natur y cais.
- [vii] Caiff copi o unrhyw awdurdodiad ei anfon at Ddeon Coleg / Pennaeth Ysgol neu Bennaeth Gwasanaeth Canolog yr aelod staff, fel sy'n briodol. Caiff y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) hefyd ei hysbysu at ddibenion diogelwch.
- [vii] Bydd yn ofynnol bod aelod staff neu fyfyrwr sy'n derbyn caniatâd yn cydymffurfio ag unrhyw a phob amod a osodir gan Ysgrifennydd y Brifysgol dan ddarpariaethau'r Polisi hwn.
- [ix] Cyfrifoldeb Deon Coleg / Pennaeth Adran Gwasanaeth Canolog a'r aelod staff yw sicrhau bod pob elfen ofynnol o'r asesiad risg cysylltiedig yn cael eu cwblhau ac nad yw eu hymddygiad, mewn unrhyw ffordd, yn torri'r gyfraith a / neu ofynion y Polisi hwn.
- [b] Y Drefn Weithredu ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr
- [i] Bydd Clwb neu Gymdeithas Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor, sydd â chylch gorchwyl cydnabyddedig sy'n golygu ei bod yn ofynnol i'w haelodau storio, meddu ar, cludo neu ddefnyddio gynnau, gynnau ffug a / neu arfau troseddol (fel y diffinnir gan y Polisi hwn) yn hysbysu'r Rheolwr Datblygu Clybiau a Chymdeithasau o bwrpas(au) o'r fath o leiaf dair wythnos cyn y digwyddiad / gweithgaredd cyntaf pan fydd teclynnau o'r fath yn eu meddiant, yn cael eu cludo neu'n cael eu defnyddio ganddynt.

Dylid cwblhau Ffurflen Gais Undeb Myfyrwyr Bangor (Atodiad 2) ar gyfer pob gweithgaredd o'r fath. Unwaith fod asesiad risg priodol wedi cael ei baratoi ar gyfer y gweithgaredd a bod y Rheolwr Datblygu Clybiau a Chymdeithasau wedi cymeradwyo'r cais dylid ei gyfeirio at y Pennaeth Cydymffurfio a fydd yn ymdrin â'r mater fel yr amlinellir yn adran 2[a]ii – 2[b]iv uchod.
- [iii] Caiff y Rheolwr Datblygu Clybiau a Chymdeithasau ei hysbysu o ganlyniad y cais a lle bo hynny'n berthnasol, cyflenwir copi o'r awdurdodiad. Caiff y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) hefyd ei hysbysu at ddibenion diogelwch.
- [iv] Pan fo Clwb neu Gymdeithas Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi derbyn caniatâd bydd yn ofynnol eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw a phob amod a osodir gan Ysgrifennydd y Brifysgol dan ddarpariaethau'r Polisi hwn.

- [v] Cyfrifoldeb y Gymdeithas yw sicrhau bod pob elfen ofynnol o'r asesiad risg cysylltiedig yn cael eu cwblhau ac nad yw eu hymddygiad, mewn unrhyw ffordd, yn torri'r gyfraith a / neu ofynion y Polisi hwn.
- [c] Y Drefn Weithredu i Fyfyrrwyr nad ydynt yn aelodau o Glwb neu Gymdeithas Undeb y Myfyrrwyr
- Ni fydd y Brifysgol yn arferol yn caniatáu awdurdodiad i fyfyrwr nad yw'n aelod o Glwb neu Gymdeithas Undeb y Myfyrrwyr i storio, meddu ar, cludo neu ddefnyddio gynnau, gynnau ffug a / neu arfau troseddol (fel y diffinnir gan y Polisi hwn).
- Gall y Brifysgol, mewn amgylchiadau eithriadol, ystyried caniatáu awdurdodiad o'r fath ond er mwyn gwneud hynny rhaid i'r myfyrwr sicrhau bod aelod priodol o staff y Brifysgol yn barod i weithredu fel noddwr ar eu rhan e.e. gallai myfyrwr sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon fel unigolyn drafod y mater gyda'u Deon Coleg neu gyda'r Cyfarwyddwr Chwaraeon a Hamdden a gweithio gyda hwynt i gyflwyno cais o dan y Polisi hwn.
- [d] Aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cael mynediad i dir y Brifysgol
- Rhaid i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cael mynediad i dir y Brifysgol, ac a fydd â gynnau, gynnau ffug a / neu arfau troseddol yn eu meddiant (fel y diffinnir gan y Polisi hwn) gysylltu â'r Pennaeth Cydymffurfio yn y lle cyntaf cyn cael mynediad o'r fath, yn amlinellu diben eu cais.
- Yna bydd y Pennaeth Cydymffurfio yn dilyn y trefnau gweithredu fel yr amlinellir yn adran 2[a]ii – 2[b]iv uchod.

4. Apeliadau

- [a] Gall y Brifysgol wrthod rhoi caniatâd i aelod staff, clwb neu gymdeithas myfyrrwyr, myfyrrwyr unigol a / neu aelodau o'r cyhoedd i storio, meddu ar, cludo neu ddefnyddio gynnau, gynnau ffug a / neu arfau troseddol ar eiddo'r Brifysgol os oes ganddi reswm da i gredu y byddai gwneud hynny yn groes i fuddiannau'r Brifysgol, ei myfyrrwyr neu ei staff neu os ydynt yn cael eu cyngori gan yr Heddlu neu asiantaeth allanol arall y byddai gwneud hynny yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd.
- [b] Mewn achosion o'r fath gall yr aelod staff, clwb neu gymdeithas myfyrrwyr, myfyrwr unigol a / neu aelod o'r cyhoedd apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Is-ganghellor o fewn 5 diwrnod o gael eu hysbysu amdano. Bydd penderfyniad yr Is-Ganghellor yn derfynol ond bydd rhaid adrodd amdano yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Tasg Cydymffurfio, yn gyfrinachol.
- [c] Gall yr aelod staff, clwb neu gymdeithas myfyrrwyr, myfyrwr unigol a / neu aelod o'r cyhoedd hefyd apelio i'r Is-Ganghellor yn erbyn unrhyw gyfyngiadau neu amodau ar awdurdodiad, fel y gosodwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol, a dylai unrhyw apêl gael ei wneud o fewn 5 diwrnod o gael eu hysbysu amdanynt. Bydd penderfyniad yr Is-ganghellor ar y cyfryw faterion yn derfynol.

5. Awdurdodaeth

Mae'r Polisi hwn yn ddarostyngedig i gyfraith Cymru a Lloegr.

6. Gweithredu

Daw'r Polisi hwn i rym o 6 Mehefin 2016.

7. Gwybodaeth Bellach

Cysylltwch â'r Pennaeth Cydymffurfio os oes gennych gwestiynau ynglŷn â chynnwys y Polisi hwn neu ynglŷn â'i weithredu.

Atodiad 1: Cais - Staff Prifysgol Bangor

Cais am awdurdodiad i storio, meddu ar, cludo a / neu ddefnyddio gynnau, gynnau ffug a / neu arfau troseddol ar eiddo Prifysgol Bangor o dan ofynion y *Polisi ar Ynnau, Gynnau Ffug ac Arfau Troseddol ar Eiddo'r Brifysgol*:

Staff Prifysgol Bangor

| | |
|------------------------------|--|
| Enw: | |
| Teitl swydd | |
| Coleg / Ysgol / Adran | |
| E-bost: | |
| Rhif ffôn: | |

| | |
|---|--|
| <p>Disgrifiad llawn o'r cais yn cynnwys pwrpas</p> <p>(Cynhwyswch gyfeiriadau at bolisiâu, trefnau gweithredu'r Brifysgol ac unrhyw ddogfennaeth arall a all fod yn berthnasol)</p> | |
|---|--|

| | |
|--|--|
| Disgrifiad o'r holl ynnau, gynnau ffuga / neu arfau troseddol y ceisir awdurdodaeth ar eu cyfer | |
| A oes asesiad risg priodol wedi cael ei gynnal? (Cysylltwch yr asesiad os yn berthnasol) | OES / NAC OES (Rhowch gylch fel bo'n briodol) |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |
| Awdurdodwyd (Deon Coleg / Pennaeth Ysgol / Cyfarwyddwr Adran Gwasanaeth Canolog) | Llofnod Awdurdodedig: |

I'r Swyddfa Cynllunio a Llywodraethu

| | |
|---|------------|
| Dyddiad derbyn y ffurflen: | |
| Cynhwyswyd Asesiad Risg: | DO / NADDO |
| Dyddiad y cyfeiriwyd at Bennaeth Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch | |

| | |
|--|------------|
| Canlyniad y cyfeiriad | |
| Manylion trafodaethau ag adrannau eraill yn y Brifysgol | |
| Dyddiad y cyfeiriwyd at Ysgrifennydd y Brifysgol | |
| Caniatawyd awdurdodiad: | DO / NADDO |
| Amodau a osodwyd (os o gwbl) | |
| Caniatawyd awdurdodiad tan (dyddiad) | |
| Dyddiad yr hysbyswyd yr aelod staff | |

| | |
|---|------------|
| Copi i'r Deon Coleg / Pennaeth Ysgol / Pennaeth Adran Gwasanaeth Canolog a dyddiad | DO / NADDO |
| Hysbyswyd Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) a'r dyddiad | DO / NADDO |

Atodiad 2: Cais - Cymdeithas Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Cais am awdurdodiad i storio, meddu ar, cludo a / neu ddefnyddio gynnau, gynnau ffug a / neu arfau troseddol ar eiddo Prifysgol Bangor:

Cais Clwb/Cymdeithas Prifysgol Bangor - Rhaid i bob aelod sydd ag eitemau geisio cymeradwyaeth

| | |
|--------------------|--|
| Clwb / Cymdeithas: | |
| Eich Enw: | |
| Safle Pwyllgor: | |
| E-bost Prifysgol: | |
| Rhif Ffôn Symudol: | |

| Eitem | Dynodwr Unigryw | Disgrifiad | Pwrpas | Man Storio |
|------------------------|--------------------|-----------------------|--------------------------------------|---------------------|
| <i>ee Pistol Glock</i> | <i>S/n 6258451</i> | <i>Pistol Airsoft</i> | <i>Profiad gêm ar safle reoledig</i> | <i>OTT Benllech</i> |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| |
|--|
| Digrifwch y rheoliadau sydd mewn lle i sicrhau trosglwyddo, storio a defnydd diogel yr eitemau hyn: |
| |
| A oes gennych asesiad risg/proses rheoli peryglon penodol mewn lle ar gyfer yr eitemau hyn? |
| Oes / Nac oes |
| Dylech e-bostio'r ddogfennaeth hon at s.barnard@bangor.ac.uk i gefnogi eich cais. |

| | |
|---|-------------------|
| Nodiadau Undeb Myfyrwyr Bangor: | |
| | |
| Cymeradwywyd gan y Rheolwr Datblygu Clybiau a Chymdeithasau: | Do / Naddo |
| Anfonwyd ymlaen at y Swyddfa Cynllunio a Llywodraethu: | Do / Naddo |

I'r Swyddfa Cynllunio a Llywodraethu

| | |
|---|------------|
| Dyddiad derbyn y ffurflen: | |
| Cynhwyswyd Asesiad Risg: | DO / NADDO |
| Dyddiad y cyfeiriwyd at Bennaeth Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch | |
| Canlyniad y cyfeiriad | |
| Manylion trafodaethau ag adrannau eraill yn y Brifysgol | |

| | |
|---|------------|
| Dyddiad y cyfeiriwyd at Ysgrifennydd y Brifysgol | |
| Caniatawyd awdurdodiad: | DO / NADDO |
| Amodau a osodwyd (os o gwbl) | |
| Caniatawyd awdurdodiad tan (dyddiad) | |
| Dyddiad yr hysbyswyd yr aelod staff | |
| Copi i'r Deon Coleg / Pennaeth Ysgol / Pennaeth Adran Gwasanaeth Canolog a'r dyddiad | DO / NADDO |
| Hysbyswyd Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) a'r dyddiad | DO / NADDO |